Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner




# Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog

## Atodiad

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mai 2020

comisiynyddygymraeg.cymru
@ComyGymraeg

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir (COVID-19) | 1 |
| 2 | Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog | 1 |
| 3 | Dewis system | 2 |
| 4 | Diogelwch | 2 |
| 5 | Trefnu cyfarfod | 3 |
| 6 | Cynnal cyfarfod | 4 |
| 7 | Os bydd problemau technegol yn codi | 4 |
| 8 | Astudiaeth achos cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog: Senedd Cymru | 5 |
| 9 | Rhannu arferion da | 6 |




**Nodyn pwysig:**

Mae gofyn statudol ar nifer o sefydliadau yng Nghymru i gydymffurfio â'r gyfundrefn safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'r ddogfen gyngor hon yn god ymarfer statudol dan y Mesur hwnnw ac felly ni ddylid cyfeirio ati wrth ddehongli'r safonau. Mater i sefydliadau yw penderfynu sut i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Wrth wneud hynny, gallant gyfeirio at y ddogfen hon. Ond ni fydd methiant i weithredu'n unol â'i hargymhellion yn golygu, o reidrwydd, fethiant i gydymffurfio â'r safonau.

I sefydliadau eraill bydd y ddogfen gyngor hon yn gymorth i gynnig gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac i weithredu mewn cyd-destun lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

# 1 Cefndir (COVID-19)

Paratowyd y nodyn cyngor hwn er mwyn darparu cyngor brys i sefydliadau yn ystod yr argyfwng byd-eang a achosir gan COVID-19. Bwriad y nodyn yw rhoi arweiniad ymarferol i sefydliadau ar sut y gellid parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Mae'r newidiadau sylfaenol i batrymau gwaith a bywyd pobl yn sgil y cyfyngiadau presennol wedi achosi chwyldro yn y defnydd o dechnoleg, yn enwedig y technolegau hynny sy'n caniatáu i bobl gynnal cyfarfodydd o bell. Mae'n anorfod bron y bydd y technolegau hyn yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn ystod y cyfnod hwn – fel y bydd ein profiad ni o'u defnyddio. Ni fydd y nodyn cyngor hwn yn un statig felly: byddwn yn parhau i ychwanegu ato wrth i ddatblygiadau newydd ymddangos ac wrth i bobl a sefydliadau yng Nghymru – a thu hwnt – barhau i arloesi er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog.

Rydym yn awyddus i glywed gennych chi am eich profiadau o gynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog yn ystod y cyfnod hwn er mwyn inni rannu arferion da a chefnogi sefydliadau ac unigolion eraill. Rhannwch eich sylwadau â ni drwy post@comisiynyddygymraeg.cymru.



# 2 Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog

2.1 Mae cynnal cyfarfodydd dros fideo yn ffordd dda o arbed amser a chostau teithio, ac weithiau dyma'r unig ffordd ymarferol o gynnal cyfarfod pan fo pobl ar wasgar. Wrth gynnal cyfarfod fideo, mae'n bosibl y bydd angen bod â chyfieithydd ar y pryd yn bresennol er mwyn galluogi cyfarfod dwyieithog. Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yn Rhan 3 Dogfen gyngor: Drafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb lle ceir ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â defnyddio cyfieithydd proffesiynol, pryd i ddefnyddio mwy nag un cyfieithydd, a sut i fynd ati i drefnu cyfieithydd ar y pryd, er enghraifft.

2.2 Dylid pwysleisio, fodd bynnag, ei bod hi'n bosibl i gyfarfodydd fideo fod yn fwy heriol a pheri mwy o straen ymenyddol i'r cyfieithydd ar y pryd na chyfarfod cyffredin. Gall fod yn anoddach i'r cyfieithydd ar y pryd ddeall cyfraniadau o ganlyniad i amhariadau ar y sain neu'r fideo, er enghraifft. Mae'n bwysig felly nad oes disgwyl i'r cyfieithydd ar y pryd gyfieithu am gyfnodau hir heb doriad. Dylid trafod ymlaen llaw â'r cyfieithydd ar y pryd a fydd angen cael mwy nag un cyfieithydd ar y pryd yn rhan o'r cyfarfod.

# 3 Dewis system

3.1 Er nad yw pob system fideogynadledda eto'n gallu cefnogi cyfarfodydd dwyieithog yn llawn, cofiwch fod yna systemau ar gael lle gall mynychwyr ddewis a ydynt yn gwrando ar y cyfarfod yn yr iaith wreiddiol neu'n gwrando ar gyfieithiad drwy sianel wahanol. Gwiriwch beth mae eich system chi'n ei gynnig neu trafodwch eich anghenion â'ch darparwr.

3.2 Os nad yw eich darparwr yn cynnig system sy'n galluogi defnyddio cyfieithu ar y pryd, mae'n bosibl bod modd ichi ddatblygu neu fuddsoddi mewn ychwanegyn ar gyfer eich system bresennol. Trafodwch â'ch arbenigwyr TG a chyfeiriwch at yr astudiaeth achos gan ADRA (Cartrefi Cymunedol Gwynedd gynt) yn Rhan 3 y ddogfen gyngor (t. 51) am enghraifft o sut i fynd ati i ychwanegu elfen at eich system fideogynadledda sy'n galluogi defnyddio cyfieithu ar y pryd.

3.3 Gall hefyd fod yn bosibl i chi ddefnyddio system ychwanegol ar wahân i'ch system fideogynadledda bresennol lle bydd y cyfieithydd yn cysylltu â'r prif gyfarfod ac yna'n darparu'r cyfieithiad drwy linell ffôn neu ddyfais arall. Rhaid pwysleisio na fyddai'r datrysiad hwn yn addas pe bai angen cyfieithiad ar nifer fawr o bobl, fodd bynnag, a bod cyfyngiadau amlwg gan fod disgwyl i bobl sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod fod â mynediad at fwy nag un ddyfais.

3.4 Os nad ydych yn gallu canfod datrysiad boddhaol yn fewnol, cofiwch ei bod hi'n bosibl hefyd i chi drafod eich anghenion â chwmni cyfieithu allanol. Mae cwmnïau cyfieithu yng Nghymru yn magu profiad yn y maes hwn yn gyflym iawn a bydd rhai cwmnïau cyfieithu yn gallu darparu gwasanaeth trefnu cyfarfod ar eich rhan hyd yn oed, gan ddefnyddio meddalwedd fideogynadledda addas.



# 4 Diogelwch

4.1 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi blog (dolen at gyhoeddiad Saesneg yn unig) am faterion cyffredinol i fod yn wyliadwrus yn eu cylch wrth gynnal cyfarfodydd drwy feddalwedd fideogynadledda. Gan ddibynnu ar ba ddatrysiad y byddwch yn ei ffafrio er mwyn darparu cyfieithiad, gall fod ystyriaethau diogelwch ychwanegol. Gwnewch yn siŵr, felly, eich bod yn gwirio canllawiau diogelwch eich darparwr a'ch bod yn trafod eich anghenion â'ch arbenigwyr TG neu ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelwch perthnasol a phriodol mewn lle.

4.2 Ceir rhagor o ystyriaethau yn ymwneud â diogelu data ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth, a gall fod ystyriaethau pellach os ydych chi'n defnyddio cyfieithydd ar y pryd allanol.

# 5 Trefnu cyfarfod

5.1 Mae cynnal cyfarfodydd dwyieithog drwy system fideogynadledda yn brofiad cymharol newydd i bobl. Mae'n bwysig felly eich bod yn paratoi'n drylwyr ymlaen llaw, ac yn cymryd cyfrifoldeb hefyd dros baratoi a briffio'r bobl hynny fydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod, gan gynnwys cadeiryddion, cyfieithwyr ar y pryd a thechnegwyr. Bydd angen ichi ystyried ymlaen llaw yr heriau technolegol a allai godi yn ystod y cyfarfod a sut y byddwch chi'n ymdrin â nhw. Cofiwch hefyd:


- ystyried hyd y cyfarfod: mae cyfarfodydd fideo yn gallu bod yn flinedig a bydd angen cynllunio'n ofalus a fydd angen mwy nag un cyfieithydd yn bresennol; os felly, bydd angen trafod sut fydd y cyfieithwyr yn cyfathrebu â'i gilydd
- gwirio bod gan y cyfieithydd ar y pryd brofiad o ddarparu gwasanaeth mewn cyfarfodydd fideo, os ddim yna trefnwch eich bod yn arbrofi â'r dechnoleg ymlaen llaw
- sicrhau eich bod chi'n briffio'r cyfieithydd ar y pryd yn drylwyr ymlaen llaw ac yn darparu copi o bapurau'r cyfarfod mewn da bryd
- sicrhau bod y papurau i gyd (gan gynnwys unrhyw sleidiau neu ddogfennau fydd yn cael eu rhannu ar y sgrin yn ystod y cyfarfod) wedi eu paratoi yn ddwyieithog
- ystyried ymlaen llaw a ydych chi'n dymuno recordio'r cyfarfod a thrafod hynny â'r cyfieithydd ar y pryd
- nodi wrth wahodd mynychwyr y bydd y cyfarfod yn un dwyieithog ac y bydd cyfieithydd ar y pryd yn bresennol
- rhoi cyfarwyddiadau clir, yn Gymraeg a Saesneg, ynghylch sut i ymuno â'r cyfarfod, yn enwedig os mai dyma'r tro cyntaf i fynychwyr ddefnyddio'r system
- rhoi cyfarwyddiadau clir ymlaen llaw ynghylch sut mae derbyn y cyfieithiad
- gofyn i fynychwyr ymuno â'r cyfarfod yn brydlon, neu ychydig cyn amser dechrau'r cyfarfod, er mwyn gallu trefnu gosodiadau'r cyfarfod cyn dechrau ar drafodaethau'r cyfarfod
- sicrhau bod y cadeirydd yn deall y bydd yn hwyluso cyfarfod dwyieithog a'i fod yn deall gofynion y cyfieithydd ar y pryd a hanfodion y dechnoleg
- sicrhau bod gan y cyfieithydd ar y pryd feicroffon a chlustffonau da
- nodi os bydd angen i'r mynychwyr ddefnyddio clustffonau arbennig
- nodi os bydd angen i'r mynychwyr ddefnyddio porwr neu ap arbennig.

5.2 Os ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r negeseuon gwib, sydd i'w cael yn aml ar ymyl y sgrin, yn ystod cyfarfod fideo, cofiwch benodi un mynychwr neu wahodd cyfieithydd testun i gadw golwg ar y negeseuon hynny. Bydd angen cyfieithu'r negeseuon hyn hefyd. Sylwer na fyddai hi'n rhesymol disgwyl i'r cyfieithydd ar y pryd ddarparu'r gwasanaeth cyfieithu testun hwn hefyd.

5.3 Os bydd un neu fwy o'r mynychwyr yn fyddar neu'n drwm eu clyw, sicrhewch bod gan yr unigolion y cyfarpar priodol er mwyn gallu clywed y cyfarfod yn eu dewis iaith. Mae rhai systemau fideo hefyd yn caniatáu isdeitlau lle mae modd penodi un o fynychwyr y cyfarfod i drawsgrifio neu wahodd trydydd parti i wneud y gwaith trawsgrifio.



# 6 Cynnal cyfarfod



6.1 Cyn dechrau'r cyfarfod, cofiwch:

- egluro wrth fynychwyr sut i agor a diffodd eu meicroffon a'u camera trwy ddefnyddio'r system
- annog pobl i gysylltu â'r cyfarfod gan ddefnyddio fideo yn ogystal â sain gan y bydd hyn o gymorth i'r cyfieithydd ar y pryd wybod pwy sy'n siarad ac i ddarllen gwefusau os yw ansawdd y cyswllt yn ddigon da
- sicrhau bod y mynychwyr i gyd ar y sianel gywir; mae'n debygol y bydd un sianel ar gyfer rhai sydd am wrando ar y cyfarfod yn yr iaith wreiddiol, a sianel arall yn ffrydio'r cyfieithiad
- cyflwyno'r cyfieithydd ar y pryd a phrofi bod y system cyfieithu ar y pryd yn gweithio
- atgoffa mynychwyr bod modd cyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ystod y cyfarfod a theipio negeseuon gwib yn Gymraeg neu yn Saesneg hefyd
- atgoffa mynychwyr i siarad yn glir a phwyllog gan ei bod yn bosibl y bydd amhariadau ar y cyswllt fideo ac na fydd y cyfieithydd yn gallu gweld wynebau'n ddigon clir i ddarllen gwefusau
- gofyn i fynychwyr ddiffodd eu meicroffonau pan nad ydynt yn cyfrannu, bydd hyn yn gwella ansawdd y sain i bawb; mae rhai systemau yn caniatáu i drefnydd y cyfarfod agor a diffodd meicroffonau mynychwyr eraill
- gofyn i fynychwyr adael eiliad neu ddau ar ôl agor eu meicroffon cyn dechrau siarad er mwyn i'r cyfieithydd ar y pryd glywed popeth gan fod oedi yn bosibl ar y sain.

# 7 Os bydd problemau technegol yn codi



7.1 Dylech fod yn glir o'r dechrau pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y dechnoleg yn gweithio'n llyfn. Gall fod yn ddefnyddiol pennu ymlaen llaw bod swyddog ychwanegol ar gael i gadw golwg ar faterion technegol ac ymateb i unrhyw ymholiadau. Gallwch ddarparu rhif ffôn penodol i bobl gysylltu ag ef neu roi cyfarwyddiadau am sut i gyflwyno negeseuon ysgrifenedig. Sicrhewch hefyd fod y cyfieithydd ar y pryd wedi cael cyfle i drafod â'r swyddogion TG neu'r technegwyr ymlaen llaw ac yn gwybod sut i gysylltu'n uniongyrchol â nhw yn ystod y cyfarfod.

7.2 Gall fod yn ddefnyddiol bod â system mewn lle er mwyn i fynychwyr nodi os oes problem â'r cyfieithu ar y pryd; gall fod mor syml â chodi llaw neu deipio neges wib.

7.3 Mae'n hanfodol bod y cyfieithydd ar y pryd yn gallu canolbwyntio'n llwyr ar y gwaith o gyfieithu. Ni fyddai'n rhesymol disgwyl i gyfieithydd ar y pryd fod yn gyfrifol am drefniadau gweinyddol neu dechnolegol y cyfarfod ar yr un pryd.

7.4 I gael rhagor o awgrymiadau am sut mae cynnal cyfarfodydd dwyieithog llwyddiannus, ewch at y canllaw cyffredinol i gadeiryddion a'r canllaw i fynychwyr cyfarfodydd dwyieithog yn [Rhan 3 y ddogfen gyngor](#) (tt. 49–50).

# 8 Astudiaeth achos cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog: Senedd Cymru


8.1 Senedd Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt) yw'r senedd gyntaf yn y Deyrnas Unedig – ac ymysg y cyntaf yn y byd – i gynnal Cyfarfod Llawn drwy gyfrwng meddalwedd fideogynadledda. Ar ben hynny, cynhelir y Cyfarfod Llawn yn ddwyieithog. Cyn penderfynu bwrw mlaen â chyfarfod rhithwir bu'n rhaid sicrhau bod modd darparu cyfieithu ar y pryd 'o bell' gan fod Deddfau Llywodraeth Cymru, y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol heb sôn am y Rheolau Sefydlog oll yn gosod rheidrwydd ar i holl weithdrefnau cyhoeddus y Senedd fod ar gael yn ddiofyn ddwyieithog. Mae argyfwng pandemig COVID-19 wedi golygu bod y Senedd wedi gorfod addasu ac arloesi dros nos yn ei ddulliau gweithio.

8.2 Mae'r Senedd wedi bod yn cynnal cyfarfodydd dwyieithog gan ddefnyddio cyfrif 'busnes' ar feddalwedd Zoom. Dyma un o'r cyfrifon mwyaf soffistigedig ar gynnig gan Zoom ar hyn o bryd ac mae'r Senedd wedi profi fod hyn yn caniatáu mwy o reolaeth i'r tîm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn ogystal â chaniatáu haenau diogelwch ychwanegol.

8.3 Ym mhrofiad y Senedd y pethau pwysicaf i'w cofio wrth ddefnyddio'r system hon i gynnal cyfarfodydd dwyieithog yw:

- sicrhau bod 'Language Interpretation' wedi ei ganiatáu yn y gosodiadau cyn anfon y gwahoddiad i'r cyfarfod
- sicrhau bod pawb ar y sianeli cywir ('Off' i'r rhai sydd am glywed y cyfarfod yn yr iaith wreiddiol yn unig ac 'English', os mai dyma'r iaith a ddewiswyd ar gyfer sianel y cyfieithiad, i'r rhai sy'n dymuno derbyn y cyfieithiad)
- peidio â phenodi'r cyfieithydd ar y system nes bod pawb wedi ymuno â'r cyfarfod; os yw pobl yn ymuno wedi i'r cyfieithydd gael ei benodi, gall achosi i'r ddwy sianel sain ffrydio blith draphlith drwy'r sianel 'English'.

8.4 Ceir cyfarwyddiadau pellach ar wefan Zoom (dolen at wefan Saesneg yn unig).



"Rwy'n mynd i ddirwyn y cyfarfod pur eithriadol hwn o'n Senedd i ben yn awr a diolch i'r holl Aelodau a'r Gweinidogion am gymryd rhan [...]Mae atebolrwydd democrataidd yn bwysig, ac mae'n parhau'n bwysig hyd yn oed yn y cyfnod hynod anodd hwn. Felly, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan heddiw i sicrhau bod democratiaeth yn fyw ac yn iach yng Nghymru, a byddwn yn ceisio ailadrodd hyn cyhyd ag y bydd angen i ni wneud hynny."

**Elin Jones, Llywydd Senedd Cymru**
(wrth gloi Cyfarfod Llawn rhithwir cyntaf y Senedd ar 1 Ebrill 2020)

# 9 Rhannu arferion da

9.1 Sefydliad arall sydd wedi cael budd o ddefnyddio meddalwedd Zoom er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu parhau i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg drwy gynnig dewis iaith mewn cyfarfodydd yw Amgueddfa Cymru. Mae swyddogion Amgueddfa Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ymarferol manwl er mwyn cefnogi eu swyddogion i fanteisio ar wasanaethau cyfieithydd ar y pryd drwy ddefnyddio Zoom. Mae'r canllawiau hyn yn tywys y defnyddwyr posibl drwy'r broses dechnegol o gysylltu â chyfarfod fesul cam. Maent yn adnabod sawl gwahanol defnyddiwr – o'r cadeirydd i'r cyfieithydd – ac yn cynnig cyfarwyddiadau penodol iddynt. Cynlluniwyd y canllawiau at ddefnydd mewnol yn y lle cyntaf ond mae Amgueddfa Cymru wedi gwneud cymwynas â darpar-ddefnyddwyr o sefydliadau eraill drwy rannu'r canllawiau yn gyhoeddus er mwyn cefnogi eraill sy'n dymuno hwyluso cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog. Gallwch weld y canllawiau ar wefan Amgueddfa Cymru.

> "Rydym yn falch o allu defnyddio technoleg i barhau i gynnal cyfarfodydd dwyieithog ar adeg ddigon anodd, ac yn gobeithio'n fawr y bydd y canllawiau o ddefnydd i eraill. Er i ni fynd ar drywydd y gwaith yma oherwydd argyfwng y Coronafeirws, bydd hefyd o ddefnydd pan fyddwn ni wedi dychwelyd i'n swyddfeydd, er mwyn hwyluso cyfarfodydd dwyieithog gwyrddach gan leihau'r angen i deithio."
>
> **Manon Humphreys, Cydlynydd y Gymraeg, Amgueddfa Cymru**

